# Disgrifiad swydd Is-olygydd dan Hyfforddiant

## 1. Cefndir *Gwerddon*

1.1 E-gyfnodolyn ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw *Gwerddon*. Mae'n gyfnodolyn academaidd amlddisgyblaethol safonol. Cymraeg yw iaith y cyfnodolyn.

1.2 Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o *Gwerddon* ym mis Ebrill 2007. Fel rhan o'r ymdrech i hyrwyddo statws yr iaith o fewn addysg uwch, ystyriwyd ei bod yn hanfodol bwysig hybu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng ymchwil, ac felly sefydlwyd cyfnodolyn academaidd a fyddai'n fforwm ar gyfer cyhoeddi gwaith ysgolheigaidd cyfrwng Cymraeg ar draws y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau.

1.3 Mae *Gwerddon* yn gweithredu cyfundrefn arfarnu annibynnol ac yn arddel y safonau golygyddol uchaf. Mae'n gydnaws â gofynion y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF).

1.4 Golygir *Gwerddon* gan yr Athro Anwen Jones. Yr Is-olygydd yw'r Dr Hywel Griffiths.

1.5 Fe'u cefnogir yn eu gwaith gan Fwrdd Golygyddol sy'n cynnwys ysgolheigion o amryw ddisgyblaethau ledled Cymru.

1.6 Cefnogir y Golygydd a'r Is-olygydd gan Gynorthwywyr Golygyddol o staff y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## 2. Cefndir y Swydd

2.1 Penodwyd Dr Hywel Griffiths yn is-olygydd *Gwerddon* yn 2013 a'r Athro Anwen Jones yn olygydd yn 2014. Mae'r Bwrdd Golygyddol yn awyddus i feithrin doniau golygyddol newydd i sicrhau parhad *Gwerddon* fel cyfnodolyn o safon ac i roi cyfle hyfforddi i academyddion eraill sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

2.2 Cytunwyd mewn cyfarfod o'r Bwrdd Golygyddol ar 3 Gorffennaf 2025 i greu swydd Is-olygydd dan Hyfforddiant i feithrin yr arbenigedd honno.

## 3. Disgrifiad swydd

3.1 Bydd yr Is-olygydd dan hyfforddiant yn cysgodi ac yn cynorthwyo'r Golygydd a'r Is-olygydd yn eu gwaith ac yn gweithio fel rhan o dîm y Golygyddion (sy'n cynnwys y Cynorthwyydd Golygyddol).

3.2 Mae'r dyletswyddau yn debygol o gynnwys:

- Cynorthwyo'r Tîm Golygyddol gyda phenderfyniadau yn ymwneud â datblygiad a phrosesau'r cyfnodolyn, gan gynnig barn yn ôl y gofyn;
- Cefnogi'r Golygydd a'r Is-olygydd mewn digwyddiadau hyrwyddo achlysurol megis yr Eisteddfod Genedlaethol;
- Cynorthwyo gyda gwaith golygu erthyglau *Gwerddon* a *Gwerddon Fach* gan gynnwys gwaith safoni erthyglau i gydymffurfio gyda'n canllawiau golygyddol;
- Bod yn bwynt cyswllt i *Gwerddon Fach* gyda Golwg360;
- Cefnogi'r broses o gasglu erthyglau i'r cyfnodolyn;
- Cefnogi'r Golygydd i benderfynu a yw erthyglau'n gymwys i gael eu harfarnu;
- Tasgau cyffredinol eraill yn ôl yr angen.

3.3 Caiff yr Is-olygydd dan hyfforddiant gyfle i fod yn rhan o'r Bwrdd Prosiect a'r Bwrdd Golygyddol a chael mewnwelediad i brosesau golygyddol.

3.4 Caiff yr unigolyn llwyddiannus hefyd brofiad gwerthfawr o gysgodi golygyddion profiadol.

3.5 Disgwylir i'r Is-olygydd dan hyfforddiant fynychu cyfarfodydd Bwrdd Prosiect a Bwrdd Golygyddol y cyfnodolyn; cyfanswm o 4 cyfarfod y flwyddyn ar-lein.

3.6 Bydd cyfnod prawf o 6 mis.

3.7 Amcangyfrifir y bydd y gwaith, ar gyfartaledd, yn ddwy awr yr wythnos, ond bydd hyn yn amrywio. Bydd angen bod ar gael i ymateb yn gyson i ymholiadau e-bost gan y Tîm Golygyddol.

3.8 Rôl ddi-dâl yw hon, ond telir treuliau rhesymol (e.e. costau teithio).

3.9 Yn ddibynnol ar y ceisiadau ddaw i law, byddem yn barod i ystyried penodi mwy nag un Is-olygydd dan Hyfforddiant.

## 4. Nodweddion personol

4.1 Disgwylir y bydd yr Is-olygydd dan Hyfforddiant yn academydd o fewn un o brifysgolion Cymru sydd â:

- Phrofiad a/neu ddealltwriaeth o gyhoeddi academaidd;
- Dealltwriaeth dda o arferion cyhoeddi academaidd yn eu maes;
- Ymrwymiad cryf i gyhoeddi academaidd cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol ac i genadwri ac amcanion *Gwerddon* yn benodol.

## 5. Ymgeisio

5.1 Gwahoddir unigolion sydd â diddordeb yn y rôl i gyflwyno eu henw ynghyd â chrynodeb byr (hyd at 200 gair) yn amlinellu eu haddasrwydd drwy'r ffurflen hon erbyn 5pm 4 Mawrth 2026.

5.2 Am sgwrs ynglŷn â'r rôl, dylid cysylltu â'r Athro Anwen Jones (aej@aber.ac.uk) neu Dr Hywel Griffiths (hmg@aber.ac.uk) gyda chopi at gwybodaeth@gwerddon.cymru.

## 6. Proses ddewis

6.1 Dewisir yr Is-olygydd dan Hyfforddiant drwy gyfweliad anffurfiol.